

Adolygiad Diogelu Unedig Unigol

Goleuo'r Gorffennol i wneud y Dyfodol yn fwy diogel

BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, anfonwch e-bost at: SUSRWales@llyw.cymru

CEFNDIR

Creu proses adolygu unigol lle mae angen ymagwedd amlasiantaeth, gan gynnwys y prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Dynladdiad Domestig; Adolygiad Dynladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol. Defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arfer proffesiynol drwy Ystorfa Ddiogelu Cymru.

CYNNYDD HYD YN HYN

- Fel y byddwch yn awr yn ymwybodol, mae'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen Dysgu a Hyfforddi, Polisiâu a Phrosesau, Ystorfa Ddiogelu Cymru a Dynladdiad Iechyd Meddwl yn cau. Os ydych chi'n aelod o un o'r grwpiau hyn ac yn dymuno cael rhyw fath o gysylltiad o hyd â datblygu a gweithredu'r ADUU, anfonwch e-bost at ein **Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh)**.
- Cynhelir cyfarfod cyntaf y GCRh ar 26 Ionawr.
- Mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys sedd bellach ar Fwrdd Diogelu Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin er mwyn cryfhau'r cysylltiadau rhwng diogelwch cymunedol a diogelu ar draws y rhanbarth.

CANLLAWIAU STATUDOL ADUU

- Mae'r tîm ADUU yn gweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol er mwyn mynd i'r afael â sylwadau diweddar ar y Canllawiau Statudol drafft. Bydd yr holl adborth yn cael ei adolygu cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.
- Mae cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Llywio a'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu wedi'i drefnu ar gyfer 14 Chwefror i adolygu drafft terfynol y canllawiau.

YSTORFA DDIOGELU CYMRU

- Mae trafodaethau wedi'u cynnal o gwmpas defnyddio'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid i brofi'r Ystorfa. Cysylltwch os hoffech fod yn rhan o'r profi hwn.
- Mae'r tîm YDdC wrthi'n adolygu'r templed Adrodd ADUU er mwyn sicrhau ei gydnawsedd â'r Ystorfa.

DYNLADDIAD IECHYD MEDDWL

- Mae'r grŵp hwn wedi adolygu'r Canllawiau Statudol er mwyn sicrhau bod yr Atodiad Dynladdiad Iechyd Meddwl dal yn ddiweddar.

POLISIÂU A PHROSESAU

- Mae drafft terfynol y templed adrodd ADUU wrthi'n cael ei gwblhau gydag aelodau allweddol o'r grŵp hwn a'r tîm YDdC.

DYNLADDIAD ARFAU BYGYTHIOL

- Mae hyfforddiant wedi cychwyn ar gyfer y cynllun peilot Adolygiad Dynladdiad Arfau Bygythiol.
- Bydd y tîm ADAB yn ymgysylltu â Byrddau Diogelu Rhanbarthol er mwyn rhannu gwybodaeth am y broses ADAB.

MATERION CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

- Bydd y grŵp Gorchwyl a Gorffen hwn yn cwrdd â'r Grŵp Llywio er mwyn adolygu Canllawiau Statudol drafft yr ADUU cyn eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

